

Gwasanaethau Cymunedol



Pwy ydym ni

Rydym yn arbenigo mewn darparu gwasanaethau cymunedol i bobl sy'n fyddar, byddar a dall a thrwm eu clyw sydd ag anghenion cymorth ychwanegol. Gallwn roi cymorth i ddynion a menywod dros 18 oed sydd ag ystod o anghenion cymhleth fel anableddau dysgu neu anableddau corfforol, salwch meddwl ac sydd ag ymddygiad y gellid ei ddisgrifio fel ymddygiad heriol. Mae ein timau yn rhoi cymorth i bobl yn eu cartrefi eu hunain ac mewn cymunedau lleol - mae faint o gymorth a'r math o gymorth a roddir yn dibynnu ar yr hyn mae ar yr unigolyn ei eisiau a'r hyn sydd ei angen arno.

Gall rhai o'n gwasanaethau gynnig y canlynol hefyd:

- Gwasanaethau ailalluogi - cymorth tymor byr (a dwys yn aml) i helpu pobl i ailfagu hyder ac annibyniaeth y gallent fod wedi'u colli drwy salwch, anabledd neu anaf
- Gofal cartref - cymorth gyda gofal personol megis gwisgo amdanoch,, ymolchi a bwyta
- Gwasanaethau pontio - cymorth i bobl ifanc 16-18 oed i'w helpu i drosglwyddo o blentyndod i fyd oedolion

Sut y gallwn eich cynorthwyo

Byddwn yn annog, yn awgrymu ac yn rhoi cymorth ichi yn y ffordd o'ch dewis a phryd bynnag y bydd ei angen arnoch. Efallai y bydd angen help arnoch gyda rhai agweddau ar fywyd o ddydd i ddydd,



megis rheoli eich arian, aros yn iach neu ofalu am eich cartref, neu efallai y byddwch am fynd allan am dro yn amlach neu ddysgu sgiliau newydd. Gallwn eich helpu i ddatblygu, neu aildysgu sgiliau sydd eu hangen arnoch i fyw'n fwy annibynnol, a chydallai o gymorth yn y dyfodol. Gallwn hefyd eich cyfeirio at unrhyw wasanaethau ychwanegol y gallai fod eu hangen arnoch. Ymhlith pethau eraill, gallwn eich helpu gyda'r canlynol:

- Sefydlu a gofalu am eich cartref yn cynnwys cynnal eich tenantiaeth, talu biliau, cyngor a chymorth ar waith atgyweirio a sicrhau eich bod yn deall sut i gadw eich cartref yn ddiogel
- Rheoli eich arian megis agor a defnyddio cyfrif banc a chyfrif cynilo, cyllidebu a gwneud cais am fudd-daliadau
- Sgiliau byw o ddydd i ddydd megis cynllunio bwydlen, coginio, glanhau, siopa a golchi dillad
- Cwrdd â phobl a gwneud ffrindiau
- Gofalu am eich iechyd yn cynnwys trefnu a mynd i apwyntiadau iechyd, bwyta'n iach, gwneud ymarfer corff a delio ag unrhyw feddyginiaeth y gallai fod angen ichi ei chymryd
- Mynd allan am dro yn cynnwys dod o hyd i wasanaethau eraill a'u defnyddio, rhoi cynnig ar weithgareddau newydd, gwneud cysylltiadau da yn y gymdogaeth a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus
- Dysgu sgiliau newydd yn cynnwys dod o hyd i gyrsiau coleg a chymorth i fynd i'r coleg

- Dod o hyd i waith – â thâl neu'n wirfoddol – a chymorth i fynd i'r gwaith
- Cymorth emosiynol neu eich helpu i reoli / deall gorbryder ac annog ymddygiad a chamau gweithredu cadarnhaol

Pa bynnag gymorth sydd ei angen arnoch byddwn yn gweithio gyda chi i greu pecyn o gymorth er mwyn ichi allu byw'r bywyd a ddymunwch. Mae hyn yn cynnwys creu cynllun cymorth sy'n canolbwyntio arnoch chi fel unigolyn, sy'n disgrifio'r hyn sy'n bwysig i chi, pa fath o fywyd rydych chi am ei gael, a pha help fydd ei angen arnoch er mwyn i hynny ddigwydd.

Mae ein staff cyfeillgar wedi'u hyfforddi i ddiwallu'ch anghenion cymorth unigol, a byddant yn cyfathrebu â chi yn y ffordd sy'n fwyaf addas i chi – boed hyn yn iaith arwyddion, llawlyfr i bobl ddall a byddar, defnyddio lluniau ac awgrymiadau, neu'ch arwyddion unigryw eich hun. Mae ein dull cyfathrebu cyflawn yn golygu ein bod yn datblygu strategaethau i gyfathrebu â chi yn unigol, oherwydd gwyddom mai camddealltwriaeth yw'r ffactor unigol mwyaf cyffredin sy'n cyfrannu at straen a gorbryder.

Yr hyn sy'n bwysig i ni

- Darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n rhoi sylw i'r hyn y mae'r bobl rydym yn eu cefnogi ei eisiau a'r hyn y maen nhw'n ei hoffi
- Helpu pobl i fod mor annibynnol â phosibl, yn unol â'u galluoedd
- Cyfathrebu yn y ffordd sydd orau gan yr unigolyn
- Sicrhau bod y bobl rydym yn eu cynorthwyo yn hapus, yn ddiogel ac yn iach
- Gweithio fel tîm ac mewn partneriaeth gyda'r bobl rydym yn eu helpu, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol eraill



Yr hyn y mae pobl yn ei ddweud amdanom

“Roedd pobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth yn cael eu helpu i fod yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Cawsant gymorth ar adegau y cytunwyd arnynt, gan staff a oedd yn eu hadnabod yn dda ac yr oeddent yn ymddiried ynddynt. Rydym wedi siarad â gweithwyr proffesiynol eraill a oedd yn ymwneud â bywydau'r bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth, yn cynnwys comisiynwyr y gwasanaeth, gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Rydym wedi siarad â pherthnasau hefyd. Ymhlith y sylwadau roedd, “Mae'n hollol berffaith; nid oedd gan X fywyd o'r blaen. Mae ei fywyd newydd wedi dechrau.”

- Adroddiad Arolygu'r Comisiwn Ansawdd Gofal ar gyfer un o'n Gwasanaethau Cymunedol

Ble rydym ni

Ar hyn o bryd rydym yn darparu cymorth i bobl ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ond rydym bob amser yn edrych am ffyrdd o gyrraedd mwy o bobl. Felly, os na allwch ddod o hyd i wasanaeth yn eich ardal chi, cysylltwch â ni oherwydd mae'n bosibl y gallwn ddatblygu rhywbeth newydd!

Cysylltu â ni

Cysylltwch â'n Cydgysylltydd Atgyfeiriadau os hoffech wneud y canlynol:

- cael mwy o wybodaeth am y gwasanaeth
- atgyfeirio
- trefnu ymweliad
- cael sgwrs am sut y gallwn roi cymorth i chi!

0333 240 5659

referrals@hearingloss.org.uk

actiononhearingloss.org.uk/careandsupport